COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 2 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD LLUN, 19 CHWEFROR 2024 AM 10:00

Yn Bresennol

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

D T Harrison

Yn bresennol yn rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| E L P Caparros | P Ford | D M Hughes | M Lewis |
| J Llewellyn-Hopkins | A Wathan | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P Davies, RL Penhale-Thomas ac R Williams

Datgan Buddiannau

Dim

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd a’r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Shagufta Khan | Arweinydd Gwaith Cymdeithasol mewn Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Laura Kinsey | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant |
| Jane Lewis | Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Darparwyr Gofal Uniongyrchol |
| Tania Turner | Rheolwr Gwasanaethau Darparwyr - Cymorth yn y Cartref |
| Pete Tyson | Swyddog Cynllunio a Rheoli Contractau |

| | |
|---|---|
| Ceri Williams | Rheolwr Gwasanaethau Darparwyr - Gwasanaethau Llety Brys a Gofal Seibiant |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rachel Keepins | Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephen Griffiths | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

## 61. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2 ar 19 Ionawr 2024 yn gofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Chwefror 2024 |

## 62. Strategaethau Comisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2023-28

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:  Ar ôl ystyried yr adroddiad a thrafod â'r Aelod Cabinet a'r Swyddogion, gwnaeth y pwyllgor y sylwadau canlynol:<br><br>**Adnoddau Ariannol a'r Gallu i Gyflawni**<br>Er y cefnogwyd y sail a'r ddadl y tu ôl i'r Strategaethau Comisiynu yn llawn, mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y cyllid posibl sydd ar gael i'w symud ymlaen o ystyried y sefyllfa gyllidebol anodd bresennol ac a ragwelir yn y dyfodol.  Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi na fyddai'r union ofynion ariannol yn hysbys nes bod achosion busnes llawn wedi'u datblygu, fodd bynnag, holodd yr Aelodau a oedd y strategaethau'n gwbl realistig ac y gellir eu cyflawni hyd yn oed ar waith a drefnwyd ar gyfer blwyddyn un, o ystyried diffyg adnoddau'r Awdurdod, yn ariannol ac o ran staffio.  Cytunodd yr Aelodau i fonitro hyn yn agos mewn unrhyw waith cysylltiedig y mae'r Pwyllgor yn ei ystyried yn y dyfodol, a gofynnodd hefyd i hyn gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol i'w archwilio o dan ei eitem monitro'r gyllideb reolaidd.<br><br>**Cysondeb y data a ddarparwyd** |

| | |
|---|---|
| | Soniodd y Pwyllgor am y data a ddangosir yn y strategaethau a bod cymysgedd o ganrannau a ffigurau'n cael eu defnyddio. Cynigiodd yr Aelodau y dylid defnyddio dull cyson drwy'r ddogfen er hwylustod, yn enwedig i'r cyhoedd.<br><br>Yn dilyn ymholiad ynghylch sut y gallai'r Pwyllgor gynorthwyo'r gwasanaeth mewn unrhyw ffordd i symud y Strategaethau Comisiynu yn eu blaen, cynigiwyd a chytunwyd gan y Pwyllgor y dylid annog Aelodau i rannu'r negeseuon allweddol gyda'u cyd-gynghorwyr yn ogystal â'u hetholwyr mewn perthynas â rheoli disgwyliadau. Gofynnwyd i'r Aelodau ledaenu'r gair y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu'n wahanol yn y dyfodol gydag arferion mwy arloesol, megis cyfres o wasanaethau tymor byr i unigolion, yn hytrach na phecynnau gofal hirdymor llawn o'r dechrau o bosibl. Roedd hyn er mwyn ceisio lleihau'r galw a'r pwysau ar wasanaethau a hefyd wedi bod yn fwy llwyddiannus wrth alluogi pobl i adennill eu hannibyniaeth.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol**<br>Gofynnodd y Pwyllgor am gael copïau o'r cyflwyniadau y cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd atyn nhw, a gyflwynwyd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol diweddar. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Chwefror 2024 |

**63. Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru o Wasanaethau Rheoleiddiedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn Gofal Cymdeithasol Oedolion**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda'r Aelodau Cabinet a Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor y sylw canlynol:<br><br>Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad cadarnhaol gan Arolygiaeth Gofal Cymru a dywedodd ei fod yn arwydd o'r gwaith caled sydd wedi digwydd gan staff cartrefi gofal a gwasanaethau cymdeithasol i fynd i'r afael â'r meysydd a amlygwyd a gweithredu gwelliannau. Llongyfarchodd yr Aelodau bawb a oedd ynghlwm wrth adroddiad llawn canmoliaeth. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Chwefror 2024 |

## 64. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A, yn nodi'r Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B a nodi y byddai'r Flaenraglen Waith, y Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion ac unrhyw ddiweddariadau gan y Pwyllgor yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ychwanegu'r pwnc 'Gofal Adferol' at ei flaenraglen waith i ystyried y materion cyfredol sy'n cael eu profi yn y Fwrdeistref Sirol ac yn benodol sut mae'r Awdurdod yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd i gefnogi unigolion sydd angen gofal adferol pan gânt eu rhyddhau o'r ysbyty. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Chwefror 2024 |

## 65. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Chwefror 2024 |

I wylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:01.